Cenn@d

GORFFENNAF 5 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 123

# ‘Pwy yw Hwn?’ – cynhadledd Undeb Bedyddwyr Cymru

‘Pwy yw Hwn?’ oedd thema’r gynhadledd a gynhaliwyd eleni yn y Tabernacl, Caerdydd, ar 23–4 Mehefin. Yn ei anerchiad gofynnodd Bill Davies, y Llywydd newydd, tybed a oeddem fel aelodau o’n heglwysi wedi colli’r ‘Waw Ffactor’ o wybod mai Mab Duw oedd – ac **yw’r** – Iesu? Os oedd unrhyw un yn amau hynny, yna’n sicr ddigon mi fyddai wedi dychwelyd adre o Undeb 2023 wedi’i galonogi a’i gadarnhau yn y gwirionedd mai Iesu byw yw ein Iesu ni a bod Duw ar waith yng Nghymru heddiw.

**Y Cyfarfod Busnes** – Daeth y gwirionedd hwn yn amlwg yn y Cyfarfod Busnes, yn dwyn y teitl ‘Buddsoddi ar gyfer Yfory’, pryd y cafwyd cyfle i glywed am weithgarwch y pwyllgorau, y byrddau, y cynghorau a Chorfforaeth yr Undeb, a phob un adroddiad yn dyst fod achos Crist yn parhau. Ymhlith y materion eraill, braf oedd clywed am y gweinidogion newydd, ynghyd â’r gweinidogion oedd wedi cyflawni cyfnodau prawf a’r ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth. Hyfrydwch hefyd oedd clywed sut yr oedd Hyfforddiant Forge wedi dechrau dylanwadu ar ein heglwysi a’r modd yr oedd y Gorfforaeth bellach yn gwerthuso pob adeilad er mwyn gwneud y gorau o’n hadnoddau. Fel rhan o’r cyfarfod hefyd, gwahoddwyd Julie Edwards i roi diweddariad ar faterion Diogelu.

**Lansio Apêl UBC: Cymorth Cristnogol 2023–2024** – Rhan o waith yr eglwys yw ymestyn allan i helpu’r llai ffodus ac un o benderfyniadau’r Pwyllgor Eglwys a Chymdeithas eleni oedd cynnal apêl mewn cydweithrediad â Chymorth Cristnogol er mwyn ‘Trawsnewid Bywydau’ a grymuso cymunedau yn Zimbabwe drwy hyfforddiant a chefnogaeth. Cyflwynwyd yr apêl gan Andrew Sully, Pennaeth dros dro Cymorth Cristnogol Cymru. Bydd yr apêl yn parhau hyd at fis Rhagfyr 2024.

**Cyflwyniad Mudiad y Chwiorydd** – Prawf arall o weithgarwch ein heglwysi yw’r ffaith fod y Mudiad yn parhau i fod yn frwdfrydig



Cyfarfod y Gymdeithas Hanes



Côr y Tabernacl yn canu addasiad o weddi Sant Ffransis o waith Euros Rhys a Siân Rhiannon yn Oedfa’r Llywydd dan arweiniad Shirley-Ann James ac i gyfeiliant Euros Rhys Evans (Llun gan Cytûn)

ac ymroddedig. Soniodd Ruth Davies, Llywydd y Mudiad, am y gyfrol *Unveiled* oedd yn cynnwys deugain o hanesion am ferched yr Hen Destament. Roedd Ruth, ynghyd â rhai o’i chyd-aelodau yn y Tabernacl, Caerdydd, a ffrindiau eraill wedi trosi‘r gyfrol i’r Gymraeg. Edrychir ymlaen at lansio’r llyfr yn ystod y misoedd nesaf.

Esiampl dda o wasanaethu’r gymuned oedd sefydlu cartref Glyn Nest dros hanner can mlynedd yn ôl, a chafwyd hanesion am waith y Cartref gan y Parchg Sian Elin Thomas, Is-lywydd y Mudiad a Chaplan Glyn Nest.

**Cyrri, Celf a Chanolfan Glyd** – Sesiwn i godi calon oedd y sesiwn hon dan arweiniad Rosa Hunt. Disgrifiwyd y Ganolfan Glyd a sefydlwyd yn y Tabernacl fel mynegiant o gariad Crist tuag at y rhai oedd mewn angen yn y ddinas. Eglurodd Rosa sut y daeth llaw Duw yn amlwg yn y fenter wrth i fwyty Giovanni (drws nesaf i’r Tabernacl) gynnig eu helpu drwy ddarparu cyrri am ddim i’r digartref ddwywaith yr wythnos. Derbyniwyd hefyd gacennau yn rhad ac am ddim gan siop *delicatessen* gerllaw. Roedd tair elfen bwysig ymhlyg yn y genhadaeth hon, sef cyfiawnder, cyhoeddi’r efengyl a’r harddwch o adnabod gwaith Duw.

**Croesawu Cynrychiolwyr yr Enwadau** – Braint a phleser blynyddol yng nghynhadledd yr Undeb yw estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o’r enwadau eraill. Eleni estynnwyd ‘deheulaw cymdeithas’ i Simon Walkling, Llywydd Cyngor yr Eglwysi Rhyddion; Ian Morris, yr Eglwys Fethodistaidd; Siôn Brynach, Cytûn; Dyfrig Rees, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a Dafydd

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

Ar drywydd Peter Williams (1723–96) **Tudalen 3**

Gweld y Gair yn y Gymru Gyfoes **Tudalen 5**

Gobaith mewn sychder? **Tudalen 7**

*'Pwy yw Hwn?' – cynhadledd Undeb Bedyddwyr Cymru*
*(parhad o dudalen 1)*

Andrew Jones, Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Y Parchg Dyfrig Rees fu'n enau drostynt gan ddiolch am y croeso.

**Croeso cynnes a helpu eraill** – Ychwanegwyd at groeso'r eglwys yng Nghaerdydd yn y gymdeithas a gafwyd o amgylch y byrddau. Cyfranogwyd o de'r croeso yn Brown's Brasserie yng Ngwesty'r Marriott ar y nos Wener, a thrannoeth wedyn yn festri'r Tabernacl. Derbyniwyd yr offrwm yn Oedfa'r Llywydd tuag at 'Croeso Butetown' ac yn Oedfa'r Weinidogaeth tuag at Gartref Glyn Nest.

**Defosiwn agoriadol dydd Sadwrn** – Bod yn ddisgyblion gwell i'r Iesu oedd byrdwn defosiwn Marc Jon Williams fore Sadwrn wrth iddo seilio'i sylwadau ar gomisiwn Iesu i'w ddisgyblion. Cyfeiriodd yn bennaf at ddisgwyliadau'r disgyblion, y demtasiwn i wrthod gwrando, ynghyd ag anogaeth ac addewid yr Iesu. Awgrymodd y dylid newid yr 'Ewch' yn 'Dewch'. Anogodd bawb i ledaenu'r Efengyl a bod yn ddisgyblion hyd eithaf eu gallu, am y gellir bod yn ffyddiog y bydd Iesu'n gwmni ar y daith oherwydd ei addewid i fod gyda ni hyd ddiwedd y byd.

**Cyflwyno'r Is-lywydd** – Y Parchg Eirian Wyn Lewis, Arolygwr Cymanfa Penfro, a gyflwynodd yr Is-lywydd, sef y Parchg Geraint Morse, Ysgrifennydd Cymanfa Penfro. Estynnodd Geraint groeso cynnes i bawb i Gymanfa Penfro, i wlad y 'wês wês', ym Mehefin 2024.

**Y Sesiwn Genhadol** – 'Duw ar Waith Heddiw oedd pennawd y sesiwn hon o dan ofal y Parchg Simeon Baker. Fe'n hanogwyd ganddo i ystyried sut i helpu eraill i ddarganfod 'Pwy yw Hwn?' – pwy yw Iesu – yng Nghymru heddiw. Hyfrydwch pur oedd gwrando ar Paula Hughes, Danni Worley a Deb Stammers (naill ai drwy gyfweliad ar sgrin neu'n fyw) yn disgrifio sut roedd llaw Duw i'w gweld yn amlwg yn Salem, Tonteg, yn Nolgellau ac yng Nghymanfa Môn. Eu dull hwy o genhadu oedd gwrando ar lais Duw, creu cysylltiadau a sgwrsio â phobl yn eu cynefin a'u cymunedau nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiad ag eglwys neu gapel gan amlaf. Cyfeiriwyd at enghreifftiau da o'r eglwys yn gweithredu y tu hwnt i oedfaon ar y Sul. Dull tebyg o genhadu oedd gan Phil Wyman, gŵr a ddaeth draw o America i Gaersalem, Caernarfon, y llynedd drwy'r cynllun Fisa, ond yn drist iawn a fu farw'n sydyn yng Ngŵyl y Gelli eleni. Cofiwyd amdano a thalwyd teyrnged arbennig iddo gan y Parchg Rhys Llwyd.

**Cyfarfod y Gymdeithas Hanes** – Dathlu bywyd dau a roddodd eu bywydau i wasanaethu Iesu a gafwyd yn y sesiwn yma. O dan arweiniad y Parchg Ddr Densil Morgan cyfeiriwyd at gyfraniadau'r diweddar Hugh a Verina Matthews gan rai oedd yn cynrychioli pob cyfnod o'u gweinidogaeth. Soniodd Rob Nicholls am yr achlysuron niferus hynny y bu i'w llwybrau groesi a darllenodd



Oedfa'r Weinidogaeth



Y Llywydd newydd, Mr Bill Davies, yn arwyddo'r Beibl

Ann Bowen Morgan atgofion Rhiannon Lewis, un o ddisgyblion Verina yn Ysgol Ffynnonbedr. Sôn am eu cyfnod yn Llundain wnaeth eu mab, Gethin Matthews, tra bu Rosa Hunt yn cyflwyno atgofion gan y rhai a fu'n gweithio gyda Hugh yng Ngholeg y Bedyddwyr. Y dosbarthiadau Beiblaidd a arweiniwyd gan Hugh oedd prif fyrdwn Noa Evans a'r modd yr oedd ei ddylanwad a'i ysbrydoliaeth yn parhau yn y Tabernacl. Daeth y sesiwn arbennig hon i ben gyda recordiad o lais y diweddar Barchg Ddr Hugh Matthews yn arwain oedfa.

**Oedfa'r Weinidogaeth** – Bu'r oedfa hon nid yn unig yn gyfle i estyn croeso i weinidogion newydd ond hefyd i gofio'n annwyl am y gweinidogion a fu farw yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Bu'n gyfle hefyd i glywed neges arbennig a chofiadwy gan y pregethwr gwadd, y Parchg Olaf Davies, cyn-weinidog y Llywydd. Cododd ei destun o adnodau olaf Eseia 4, oedd yn cyfeirio at iachawdwriaeth Duw mewn cyfnod digon digalon. Roedd gan Eseia felly neges bwysig ar ein cyfer heddiw, a ninnau'n byw mewn oes a gefnodd ar yr hyn oedd yn rhoi ystyr a chyfeiriad i fywyd. Meddai Olaf, 'Ein gwaith fel disgyblion Iesu yw cyhoeddi'r tabernaclau ac nid cyd-fynd â'r anobaith. Does dim hawl gennym i anobeithio gan nad yw anobeithio yn rhan o'n swydd-ddisgrifiad.'

**Y 'Waw Ffactor'** – Heriwyd y gynulleidfa gan y Parchg Olaf Davies yn Oedfa'r Weinidogaeth i ddweud wrth eraill pwy oedd Iesu ac i fynegi'r hyn yr oedd yn ei olygu iddynt. Atgoffwyd pawb hefyd na chafodd teyrnas Dduw ei dileu ac na fyddai'n cael ei ddileu gan fod pabell Duw gyda dynion. Cafwyd tystiolaeth o hynny yn anerchiad y Llywydd y noson cynt wrth iddo yntau gyfleu'r thema 'Pwy yw Hwn?' a hynny'n fyrdwn ar hyd y ddau ddiwrnod yn y Tabernacl. Na! Ni chollwyd y 'Waw Ffactor'



Y Llywydd newydd, Mr Bill Davies, yn arwyddo'r Beibl yng nghwmni'r Parchg Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol UBC; y Parchg Ddr Densil Morgan, Cyn-lywydd; a'r Parchg Aled Davies, a offrymodd weddi'r urddo

# Ar drywydd Peter Williams (1723–96)

Eleni, ar ddiwrnod hafaidd braf, cynhaliodd gweinidogion Cymdeithas Gweinidogion Bro Preseli eu pererindod flynyddol ddydd Mawrth, 13 Mehefin. Dan arweiniad y Parchedig Tom Defis, trefnwyd pererindod i ddilyn hanes yr enwog Peter Williams, yr esboniwr ac un o arweinwyr cynnar y Methodistiaid, ond un a gafodd yn gywilyddus ei ddiarddel gan y corff Methodistaidd yn Sasiwn Llandeilo Fawr yn 1791. Fe'i diarddelwyd am arddel syniadau Sabelaidd yn y Beiblau esboniadol a gyhoeddwyd ganddo. Cam gwael oedd hyn yn hanes y Methodistiaid, ac mae cydymdeimlad helaeth wedi bod â Peter Williams byth ers hynny. Nid oes fawr o barch bellach i agwedd haerllug a balch Nathaniel Rowland, a chwaraeodd ran flaenllaw yn y diarddeliad. Ond mae cryn gydsyniad â geiriau ei dad, Daniel Rowland, a ddywedodd wrth ei fab oherwydd ei gondemniad o Peter Williams mewn sasiwn flaenorol: 'Nat, Nat, ti a gondemniaist dy well.'



Eurig Davies ger bedd Peter Williams ym mynwent Llandyfaelog

Yn gydymaith i ni ar y daith yr oedd y brawd Eurig Davies, Pontardawe, sy'n Gadeirydd Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin ac sydd wedi ymchwilio a thrwytho'i hun yn helaeth yn hanes Peter Williams. Ar hyd y daith bu'n rhannu gyda ni hanesion difyr am Peter Williams yn ei gysylltiadau â'r mannau yr ymwelsom â hwy. Mawr oedd ein diolch a'n dyled iddo am yr arlwy gyfoethog a gawsom ganddo wrth glywed yr hanes.

Cychwynasom y daith ag ymweliad â Gerddi a Chanolfan Hywel Dda yn Sanclêr, ac wedi cael paned yno aethom ymlaen mewn bws mini i gapel Heol Dŵr yng Nghaerfyrddin, capel a adeiladwyd gan Peter Williams ar ei draul ei hun, yn 1771. Roedd wedi prynu tŷ ar les yn Heol Dŵr yn 1765 er mwyn cael bod yn agos at argraffty John Ross, argraffydd ei gyhoeddiadau. Yn y capel cawsom weld mwy nag un copi cynnar o *Beibl Peter Williams*, fel y caiff ei adnabod. Ymlaen wedyn i'r fynwent yn Eglwys Llandyfaelog, a'r pentref lle bu Peter Williams yn preswylio yn ei gartref yno yn Gellilednais, gan weld ei garreg fedd ac arni'r geiriau o Salm 55:12–14, yn fynegiant o'i siom a'r chwerwder a brofodd wrth gael ei ddiarddel gan ei gymrodyr.

Cawsom doriad yn Nhalacharn gan fwynhau lluniaeth yno wrth droed y castell a gerllaw'r mynediad i gartref y bardd Dylan Thomas. Ymlaen wedyn i Gapel Coffa Peter Williams ym Mhentywyn, a agorwyd ar ganmlwyddiant ei farwolaeth, yn 1896. Fe'n croesawyd yno gan y brawd John Thomas, aelod o'r eglwys sy'n cyfarfod yno, a rannodd beth o hanes yr eglwys sy'n dal i addoli heddiw yn y capel bach. Braf oedd sylwi ar yr hysbyfwrdd newydd sydd wedi ei osod y tu allan ag ychydig o'r hanes a chod QR i ymwelwyr fedru cael hyd i ragor o hanes am Peter Williams.

Aethom ymlaen wedyn i Eglwys Gymyn, eglwys hynafol lle cafodd Peter Williams ei ordeinio'n gurad, ond ei droi allan yn fuan oherwydd bod ei Fethodistiaeth yn wrthun i'r offeiriad absennol a hefyd Esgob Tyddewi ar y pryd. Cyhuddid ef o weddïo o'r frest a hwyrach esgeuluso defnyddio'r Llyfr Gweddi, o bregethu'r pechod gwreiddiol, cyfiawnhad trwy ffydd a'r angenrheidrwydd o brofi ailenedigaeth. Am yr un rhesymau, wedi hynny, cafodd ei droi allan o ddwy guradiaeth bellach cyn iddo fwrw'i goelbren yn llwyr gyda'r Methodistiaid.

Eglwys Sant Teilo yn Llanddowror oedd nesaf ar ein taith. Yno gwelsom gofebau i Griffith Jones, sylfaenydd ysgolion cylchynol ledled Cymru, ac i Fadam Bridget Bevan, prif noddwr ei ysgolion. Ni fyddai Peter Williams wedi medru cyhoeddi ei Feibl esboniadol dylanwadol oni bai am waith arloesol Griffith Jones a fu foddion i sicrhau bod y Cymry Cymraeg, yn ystod y ddeunawfed ganrif, ymhlith y mwyaf llythrennog yn eu hiaith eu hunain drwy'r byd yn gyfan.

Daeth y diwrnod i'w derfyn drwy gymdeithasu wrth y byrddau a chael swper rhagorol yn nhafarn y Corvus yn Sanclêr. Yn ein cyfarfod busnes cyn swper, etholwyd y Parchedig Catrin Ann yn gadeirydd ar gyfer y tymor 2023–34, a mawr oedd ein diolch i'r Parchedig Ken Thomas a fu'n ein llywio mor ddeheuig gyda'i bersonoliaeth braf gydol y tymor oedd yn dirwyn i ben. Yn ein pererindota cawsom ar ei hyd ddiwrnod braf ac adeiladol gan fwynhau cwmnïaeth serchog ymhlith ein gilydd. Bydd croeso i weinidogion newydd ymuno â ni pan fyddwn yn ailgyfarfod wedi'r haf ar yr ail ddydd Mawrth yn y mis yng ngwesty Caffi Beca yn yr Efail-wen.

*Emyr Gwyn Evans*
*Ysgrifennydd*



Y gweinidogion ac Eurig Davies ym mynwent Eglwys Llandyfaelog



Y pedair hyn yn eu hetiau haul yn mwynhau'r gwmnïaeth ar y bererindod!
Y Parchgn Beti-Wyn, Catrin Ann, Sian Elin a Llunos Gordon

# Adroddiad Pwyllgor yr Egin Gwyrdd

Mewn adeg pan ydym yn pryderu am ddyfodol ein capeli, daeth cyfle unwaith yn rhagor i ymfalchïo yn ein plant a'n pobl ifanc sy'n mynychu ein hysgolion Sul. Bob blwyddyn, mae Rali Ysgolion Sul Pwyllgor yr Egin Gwyrdd, Cymanfa Bedyddwyr Penfro, yn ddathliad, a doedd eleni ddim yn wahanol.

Ar ddiwedd blwyddyn heriol arall yn ein hysgolion Sul yn dilyn y cyfnod clo, cawsom oedfa hyfryd a chyfle i wobrwyo'r ymgeiswyr gyda thystysgrifau, talebau a losin. Braf oedd cyhoeddi yn y Rali fod ysgol Sul newydd wedi dechrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sef Ysgol Sul Seion, Crymych, gan Claire Jones. Maen nhw'n cyfarfod ar brynhawn dydd Llun yn Ysgol Bro Preseli.

Yng Nghapel Ebeneser Dyfed daeth cynulleidfa dda ynghyd ar fore braf ar ddechrau mis Mehefin. Roedd yr oedfa o dan lywyddiaeth y Parchedig Sian Elin Thomas, gweinidog y capel





ac ysgrifennydd y pwyllgor. Cawsom rannau arweiniol arbennig gan bobl ifanc Ysgol Sul Ebeneser, ac roedd athrawes yr ysgol Sul, Mrs Beti Thomas, wrth yr organ.

Yn annerch y plant eleni yr oedd Mrs Elin Dafydd, Capel Bethel, Mynachlog-ddu. Mae gan Elin gysylltiad agos a Chapel Ebeneser, ac fe wnaeth ei wncwl, sef John Davies, Cwmbetws, ei chyflwyno.

Siaradodd Elin â'r plant am bwysigrwydd bwydo yn y Beibl a phwysigrwydd bwydo ac amaeth yn ein hardal ni yn nawr. Diolch iddi am anerchiad arbennig. Mr Cerwyn Davies, Llywydd Cymanfa Penfro, gyflwynodd y gwobrau i'r plant.

Diolch i holl athrawon a phobl ifanc ein hysgolion Sul am eu gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf, ac edrychwn ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod.

## Taro'r Post

Yn hanesyddol, mae dilynwyr y ffydd Gristnogol wedi arddel safbwyntiau diwinyddol efengylaidd uniongred neu safbwyntiau rhyddfrydig sy'n credu bod y Beibl yn agored i ddehongliadau.

Ar y wefan, mae Cymrugyfan yn diffinio'i hun fel:

"Cydweithrediad rhwng eglwysi a sefydliadau efengylaidd er mwyn plannu a chryfhau eglwysi ar draws Cymru.

"Mae Cymru yn profi argyfwng presenoldeb yn yr eglwys. Ar hyn o bryd mae llawer o drefi a channoedd o bentrefi heb yr un eglwys efengylaidd. Yn ogystal mae yna lawer o bobl a chymunedau Cymraeg eu hiaith heb fynediad i'r eglwys nac i neges Iesu Grist yn eu hiaith eu hiaith eu hunain.

"Mae Cymrugyfan yn gweithio i weld eglwysi'n cael eu sefydlu, yn arbennig lle nad oes eglwysi efengylaidd yn bodoli, a lle mae angen i eglwysi gael eu hatgyfnerthu yn eu heffeithlonrwydd.

"Gwneir hyn yn bennaf drwy hyfforddi a mentora grŵp o arweinwyr arloesol drwy brosiect Derwen."

Un o gredoau Cymrugyfan yw: "Y bydd yr Arglwydd Iesu yn dychwelyd yn ei berson, i farnu pawb a gweithredu condemniad cyfiawn Duw ar y rhai sydd heb edifarhau gan dderbyn y rhai a brynwyd i ogoniant tragwyddol."

Partneriaeth newydd rhwng Ysgol Ddiwinyddiaeth Union a rhai sy'n rhannu'r Efengyl yn y Gymraeg neu mewn cyd-destunau dwyieithog yng Nghymru yw Rhwydwaith Daniel Rowland.

Wrth bori yng ngwefan yr Union School of Theology, sylwaf fod y sefydliad hyfforddi efengylaidd hwn wedi ei wreiddio yn America ac yn gweithredu ar draws y byd. Ni lwyddais i gael hyd i fersiwn Cymraeg un o gredoau'r Union School of Theology, "that the Lord Jesus Christ will return in power and glory. That there is to be a resurrection and final judgment of all people issuing in eternal blessedness for believers and eternal punishment for the wicked".

Ers cau Coleg Diwinyddol y Presbyteriaid yn Aberystwyth chwarter canrif yn ôl, mae'n ymddangos bod addysg ddiwinyddol yr enwad wedi bod yn ddiffocws a braidd yn annelwig. Bu darpariaeth ar y cyd rhwng yr enwadau yma yn y gogledd dan arweiniad y Parchedig Athro Elwyn Richards a'r diweddar Barchedig Athro Euros Jones.

A oes rhywun yn gwybod beth yw strwythur hyfforddi gweinidogion presennol pob enwad unigol yma yng Nghymru? Neu a yw adain efengylaidd Rhwydwaith Daniel Rowland yr Union School of Theology wedi canfod gwagle, ac yn gweld cyfle i gamu i mewn?

*Eifion Wynne*
*Rhuthun*

# Gweld y Gair yn y Gymru Gyfoes

## Fforwm Ffydd, Undeb Athrofa'r Bala 2023 – yr ail ran

Diffinio rôl y Gair yn y Gymru gyfoes oedd thema ail anerchiad y Dr Gareth Evans-Jones yn ystod sesiwn prynhawn y Fforwm Ffydd a gynhaliwyd yn Eglwys Seilo, Llandudno, ar 16 Mai.

Dechreuodd Gareth ei anerchiad drwy gyflwyno'r darlun ystadegol diweddaraf ynghylch sefyllfa Cristnogaeth yng Nghymru yn dilyn Cyfrifiad 2021.

Yn 2001 roedd 72% o bobol Cymru yn ystyried eu hunain yn Gristnogion, ond roedd y ffigwr hwn wedi gostwng i 57% erbyn 2011. Fodd bynnag, erbyn 2021, mae'r ffigwr hwn wedi gostwng eto i ddim ond 46% drwy Gymru.

A dim ond mewn tair etholaeth Gymreig y gwelir mwyafrif o Gristnogion proffesedig heddiw, ac Ynys Môn yw'r unig ardal yn y Gymru Gymraeg sydd uwchlaw trothwy'r 50%.

Mae gostyngiad o'r fath yn siomedig iawn ar un ystyr, wrth gwrs, ond efallai na ddylid anobeithio gormod, gydag un o bob dau yng Nghymru heddiw yn dal i arddel y ffydd ar ryw lefel. Ac efallai nad yw 46% yn ffigwr mor ddrwg â hynny chwaith, o feddwl mai 18% ydi'r ffigwr diweddaraf o ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru!

Esboniodd Gareth fod y Cyfrifiad yn dangos bod Cymru yn fwy o fosaic crefyddol na'r monolith Cristnogol arferai fodoli yma. Nodwyd cynnydd mewn Bwdaeth, Iddewiaeth a Mwslemiaeth, y Di-gred a Phaganiaid oll yn ffigyrau 2021.

Diddorol yw nodi cyfuniad o ddylanwadau allanol a mewnol gyda'r datblygiadau uchod. Gellid dadlau mai dylanwadau oddi allan yw Bwdaeth, Mwslemiaeth ac Iddewiaeth, a'r gred Ddi-gred hefyd, o ystyried hanes Cymru ar hyd y canrifoedd. Ond mae dylanwad mewnol yn amlwg gyda'r twf mewn paganiaeth, neu neo-baganiaeth fel y gellid ei galw mewn gwirionedd. Gwelir nifer cynyddol o Gymry heddiw'n dychwelyd at gred oedd yma cyn dyfodiad Cristnogaeth ei hun, gan ailafael yn rhywbeth sydd yn greiddiol Gymreig yn ei hanfod, ac wedi parhau i lechu yma o dan yr wyneb ar hyd y canrifoedd maith.

Pwy all wadu nad byd-olwg paganaidd i bob pwrpas a welir yn treiddio trwy brif gampwaith llenyddiaeth Gymraeg, sef y Mabinogi?

Mae'n bosib hefyd, wrth gwrs, fod yr holl bwyslais ar 'newid hinsawdd' ar ein cyfryngau torfol dros y blynyddoedd diwethaf wedi cyfrannu at y duedd ddiweddar hon i roi cymaint o sylw i'r amgylchedd. Bellach, mae'r weithred o addoli'r greadigaeth wedi ei gosod uwchlaw addoli'r Creawdwr ym meddyliau nifer fawr o bobol.

Bid a fo am hynny, neges Gareth oedd mai'r her sydd bellach yn ein hwynebu yng Nghymru yw 'trosi'r Gair mewn gwisg wahanol'. Y gamp yw dychwelyd at hanfod Cristnogaeth ei hun, sef 'cariad', er mwyn estyn allan at y traddodiadau, hen a newydd, sy'n ymddangos yma. Mae nifer o elfennau gwahanol sy'n bwysig yn ein diwylliant cyfoes yn deillio ohono, megis parch, brawdgarwch, goddefgarwch, amynedd, dyfalbarhad a hunanddisgyblaeth.

Y dasg i Gristnogion yng Nghymru heddiw, pob un ohonom, yw ceisio ein gorau i ddeall barn pobol, dirnad barn pobol a derbyn barn pobol wahanol i ni'n hunain, er mor anodd y gall hynny fod ar adegau. Dylid gwneud hynny drwy ddeialog barhaus sy'n helpu'r naill a'r llall i ddysgu am eraill, a dysgu mwy amdanom ein hunain yr un pryd.



Y Parch. Megan Williams, yr Athro Eryl Wynn Davies, Dr Gareth Evans-Jones, a'r Parch. Eric Jones

Gorffennodd ei anerchiad drwy ddweud na ddylid pregethu rhagoriaeth un ffydd dros eraill erbyn hyn oherwydd y sefyllfa newydd a welir yma.

Geiriau clodwiw ar un ystyr, ond tybed hefyd oes yna broblem ynghlwm wrth anelu at gydraddoldeb llwyr gyda'r materion hyn? Y perygl gyda hynny yw fod bopeth yn cael ei lastwreiddio er mwyn plesio pawb.

Wedi'r cwbwl, byddai'n anodd iawn i Gristnogion gefnu'n llwyr ar y syniad fod yna ragoriaeth yn perthyn i'n ffydd, cymaint fu ei dylanwad ar y Cymry ar hyd y canrifoedd maith.

Efallai mai'r gamp yw glynu wrth y rhagoriaeth hon gan barchu hawl pobol eraill i fynd eu ffordd eu hunain yr un pryd.

*Aled Gwyn Jôb*


## CYFLE CYFFROUS I WEINIDOGAETHU I BLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD

CynllunEFE
Efengyl i Fro'r Eco

**Swyddog Plant, Ieuenctid a Theuluoedd**
**Cynllun EFE**
**(3 diwrnod yr wythnos)**

Ydych chi'n angerddol dros rannu gobaith Iesu Grist ag eraill?

Ydych chi eisiau gweithio gyda phlant, ieuenctid a theuluoedd?

Mae Cynllun EFE yn chwilio am berson brwdfrydig i arwain a datblygu'r gwaith o gyflwyno'r Efengyl trwy gydweithio â chapeli, eglwysi ac ysgolion yn y pentrefi rhwng yr Wyddfa a Chaernarfon.

Am fanylion llawnach am y swydd a ffurflen gais, cysylltwch â John Roberts ar johntyhen@aol.com – neu ffoniwch (01286) 650450.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Gorffennaf 2023

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 31 'Syrthio ganwaith i'r un bai ...'

### Darllen: Genesis 20:1–18

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 129)

I genhedlaeth fel ein cenhedlaeth ni, sydd wedi hen arfer â chael pethau yr un diwrnod neu o fewn ychydig i wneud cais, mae'r penodau yma yn Genesis yn medru bod yn rhwystredig. Ers pennod 12 rydym wedi ein paratoi i edrych ymlaen at eni mab i Abraham a Sarah, ond mae yna oedi. Mae yna bethau eraill mae'n rhaid inni eu gweld a dysgu oddi wrthynt. Yna, ym mhennod 18 fe glywn fod y plentyn am gael ei eni mewn blwyddyn, ond eto, rhaid inni ddysgu o hanes Lot, Sodom a Gomorra.

A beth am bennod 20? Wedi i Abraham dderbyn yr addewid am fab o'r newydd, wedi iddo eiriol dros y dinasoedd, cawn wybod bod Lot wedi ei gadw oherwydd 'yr oedd (Duw) wedi cofio am Abraham, a phan oedd yn dinistrio'r dinasoedd y bu Lot yn trigo ynddynt, gyrrodd Lot allan o ganol y dinistr' (19:29). Mae Abraham wedi ei godi i le uchel yn ein golwg, a byddai'n beth priodol fod y plentyn yn cael ei eni gyda hynny o gefndir. Ond i'r gwrthwyneb, mae Isaac yn cael ei eni wedi cywilydd y digwyddiad yma yn Gerar.

Fe gofiwch o bennod 12 fod Abraham y tro hwnnw wedi mynd yr holl ffordd i'r Aifft; y tro hwn, mae ar derfynau isaf y wlad yr oedd Duw wedi ei haddo, ond heb ei gadael. Wedi cyrraedd, cawn olwg cignoeth o'r hyn ydym ni, a hynny yn y ffaith fod Abraham yn ailadrodd pechod yr oedd wedi ei gyflawni o'r blaen. Anodd deall pam fod rhai am ddweud mai'r un digwyddiad yn cael ei ailadrodd sydd yma; tebyg eu bod yn well pobl na fi, gan gredu na fyddai'n bosibl i Abraham syrthio i'r un bai eto.

Yn ôl un esboniwr ar y llythyr at y Rhufeiniaid, lle y dylem fod yn byw fel rhai sy'n fwy na choncwerwyr, fel sy'n cael ei osod allan yn ogoneddus ym mhennod 8 o'r llythyr, mae profiad yn ein dysgu ein bod yn treulio llawer mwy o amser ym mhennod 7! Yno cawn Paul yn disgrifio'i frwydr ei hun, a'n brwydr ninnau: 'Y mae'r ewyllys i wneud daioni gennyf; y peth nad yw gennyf yw'r gweithredu. Yr wyf yn cyflawni, nid y daioni yr wyf yn ei ewyllysio ond yr union ddrygioni sy'n groes i'm hewyllys' (Rhufeiniaid 7:18–19). Ond, fel yn hanes Abraham, felly yn ein hanes ni. Wrth ofyn, 'Y dyn truan ag ydwyf! Pwy a'm gwared i o'r corff hwn a'i farwolaeth?' cawn yr ateb, 'Duw, diolch iddo, trwy Iesu Grist ein Harglwydd! Yn awr, felly, nid yw'r rhai sydd yng Nghrist Iesu dan gollfarn o unrhyw fath' (Rhufeiniaid 7:24–5; 8:1).

O ran y testun ym mhennod 20, yr wyf am nodi dau beth sy'n syndod, ac eto, yng ngoleuni'r hyn yr wyf wedi ei nodi yn barod, yn ddealladwy. Yn gyntaf, yn yr hanes yma, cawn fod Abimelech, un yr oedd Abraham yn ei ddefnyddio fel esgus, yn cael ei ddangos mewn goleuni cadarnhaol. Yn ôl Abraham, 'Mi feddyliais nad oedd neb yn ofni Duw yn y lle hwn, ac y byddent yn fy lladd o achos fy ngwraig' (adn. 11). O ran Abimelech, mae'n dangos haelioni helaeth at Abraham, 'Yna cymerodd Abimelech ddefaid, ychen, gweision a morynion, a'u rhoi i Abraham, a rhoes ei wraig Sara yn ôl iddo. A dywedodd Abimelech, "Dyma fy ngwlad o'th flaen; cei fyw lle bynnag y dymuni"' (adn. 14–15). Mae'r rheswm dros yr haelioni yn deillio o'r ffaith fod Duw wedi datguddio'i hun iddo, wedi ei rybuddio, ac wedi cydnabod ei fod wedi gweithredu'n ddieuog: 'Ond daeth Duw at Abimelech mewn breuddwyd nos, a dweud wrtho, "Fe fyddi farw o achos y wraig a gymeraist, oherwydd gwraig briod yw hi"' (adn. 3); '"Mi wn iti wneud hyn â chydwybod dawel ... Yn awr, rho'r wraig yn ôl i'w gŵr, oherwydd proffwyd yw ac fe weddïa trosot, fel y byddi fyw"' (adn. 6,7). Wrth ryddhau Sarah a dangos haelioni, cawn ei fod ef a'i deulu'n cael eu bendithio, ac yn hynny, mae'r addewid ym mhennod 12:3 yn cael ei gwireddu, 'Bendithiaf y rhai sy'n dy fendithio'.

Yn ail, mae yna wersi yn ymateb Abraham sy'n syndod o berthnasol. Nid yw safle breintiedig yn warant rhag methiant. Nid oes neb sydd uwchlaw temtasiwn a methiant, pa hyd bynnag fo blynyddoedd eu gwasanaeth: 'Felly, bydded i'r sawl sy'n tybio ei fod yn sefyll, wylio rhag iddo syrthio' (1 Corinthiaid 10:12). Rydym hefyd i weld bod ein hesgusodion yn amlwg i bawb heblaw ni ein hunain. Mae tri esgus yn cael eu defnyddio yma. Mae'r cyntaf yn deillio o foesoldeb sefyllfa, cystal â dweud bod ein hamgylchiadau gyfryw fel nad oedd gen i ddim dewis. Eto yn 1 Corinthiaid 10:13, mae Paul yn rhoi clec ar yr esgus yma, 'Nid oes un prawf wedi dod ar eich gwarthaf nad yw'n gyffredin i bawb. Y mae Duw'n ffyddlon, ac ni fydd ef yn gadael ichwi gael eich profi y tu hwnt i'ch gallu; yn wir, gyda'r prawf, fe rydd ef ddihangfa hefyd, a'ch galluogi i ymgynnal dano.' Mae'r ail yn ceisio cuddio mewn dadl dechnegol: roedd Sarah yn fath o chwaer i Abraham, ond roedd yn wraig iddo – dyna sy'n ganolog yma! Mae'r trydydd esgus yn pledio traddodiad; dyma fyddwn ni'n arfer ei wneud, 'i ble bynnag yr awn, dywed amdanaf, "Fy mrawd yw ef"' (adn. 13).

Ond, fel mae'r holl hanesion hyd yn hyn wedi ein dysgu, nid ein gwaith ni, ond gwaith Duw sy'n sicrhau bwriadau gras. Roedd tystiolaeth Abraham yn sobor, ac eto mae Duw yn ei arddel o flaen Abimelech. Ac yn wahanol i'r hyn sy'n 'ddoethineb' yn ein hoes ni, ni all hyd yn oed methiannau pobl Dduw atal ei fwriadau grasol ef. Mae Abimelech yn ymateb i'r Duw sy'n arddel Abraham, a'r Duw oedd yn addo bendith iddo yntau. Oherwydd ymateb Abimelech, a gweddi Abraham, 'iachaodd Duw Abimelech a'i wraig a'i forynion; a chawsant blant'.

1. Byddwn yn clywed llawer am fethiant arweinwyr Cristnogol. Sut mae ymateb fel Cristion i'r methiannau hyn?
2. 'Mae'r hanes hwn yn dangos bod gan Gristnogion fan gwan.' Sut fyddwch chi'n ceisio osgoi gosod eich hun mewn sefyllfaoedd sy'n eich gadael yn agored i'r man gwan yn eich bywyd chi?
3. Oes yna bechodau fyddwch chi'n eu hesgusodi oherwydd eich sefyllfa, yn ceisio'u cyfiawnhau ar ryw bwynt technegol, neu'n cuddio yn y ddadl, 'Fel hyn ry'n ni wedi arfer ...'?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

**Sul, 9 Gorffennaf am 7.15yh – rhaglen 45 munud**

**Dathlu Beibl Peter Williams**

Bydd Nia ar daith i Sir Gâr a'r Llyfrgell Genedlaethol i olrhain hanes rhyfeddol Peter Williams, y gŵr cyntaf i argraffu'r Beibl yng Nghymru – un o gewri'r Methodistiaid a ddaeth â'r Beibl i lawr o'r pulpud ac i mewn i'r parlwr. Cawn fwynhau emynau pwerus a pherfformiadau swynol.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 9 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**

**Bethlehem, Gwaelod-y-garth: rhaglen 1**

Delwyn Siôn yn cyflwyno perfformiadau gan Gantorion Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Sul, 9 Gorffennaf, am 12yp**

Oedfa dan ofal Dyfrig Lloyd, Caerdydd

# Gobaith mewn sychder?

**Mae'r eitem 'Hanes yr Achos' ar agenda Sasiwn yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn gyfle i Henaduriaeth gymryd stoc o'i gwaith a'i sefyllfa, i rannu a derbyn ac fel Sasiwn i ni galonogi ein gilydd. Ar ddiwedd ei gyflwyniad o'r 'hanes' ar ran Morgannwg Llundain yn Sasiwn y De yn ddiweddar, cododd yr ysgrifennydd rai pwyntiau nad oeddent yn hollol newydd ond a oedd o bwys i'r Henaduriaeth.**

Y cyntaf ydoedd cydnabod llafur ac ymroddiad cymaint o flaenoriaid ac eraill wrth iddynt gynnal yr achos, llawer mewn eglwysi bychain dan ddeg o aelodau, llawer yn wragedd a'r mwyafrif heb fod nac ifanc na chanol oed mewn eglwysi na welodd weinidogaeth ers deugain mlynedd. Braint yw diolch iddynt a'u gwerthfawrogi. Arnyn nhw y disgyn holl gyfrifoldeb cynnal yr achos yn nyddiau'r drudaniaeth a phrinhau o'r 'sgwyddau i rannu'r baich. Nid chydig yw'r gri am gymorth ac eto main ar y cyfan yw'r ymdeimlad o berthyn i gorff o eglwysi. Her i ni glosio at ein gilydd ar bob gwastad o'r Cytundeb?

Yn ail, ar wahân i fychander yr aelodaeth, nodwedd arall amlwg ydoedd amrywiaeth y gweithgareddau a gynhelid yn ein hadeiladau neu a gefnogid o fewn cymunedau, megis Banciau Bwyd, cynnig lloches neu gefnogi elusennau lleol. At hynny, roedd llu mawr o gymdeithasau/fudiadau lleol yn cyfarfod yn gyson ynddynt: cymdeithas hanes, cymdeithas Gymraeg, cadw'n heini, ysgol feithrin, corau ac ati – pob un yn cynnig rhyw gyfle neu wasanaeth i gymuned. A dyma godi pont â'r gymdeithas ehangach, ac mae pob pont ynddi ei hun yn genhadaeth. Ond cwynai ambell un nad adlewyrchid y gweithgareddau yma ym mywyd yr eglwysi. A dyna godi cwestiwn pellach: ai diben tystio neu genhadu ydyw llenwi seddau neu barhau traddodiad eglwysig ynteu gwasanaethu heb ddisgwyl dim yn ôl, creu 'ymerodraeth' neu greu cymuned. Cofiwn y tri efengylydd yn India yn penderfynu na ddefnyddient eiriau wrth ddynesu at bentref, dim ond byw ymhlith y bobl am gyfnod. Dim ymateb ar ôl tair blynedd. Aros drachefn. Cyn pen yr ail dymor, pennaeth y pentref yn dod i holi: 'Pwy ydach chi? Pam dach chi yma? Rydan ni wedi bod yn eich gwylio chi; rydan ni'n leicio be' rydan ni wedi'i weld, ac isio gwybod mwy.' Cwestiwn i feddwl amdano felly yw beth ydym am i'r gymuned ei weld wrth gael cyswllt â'r eglwys, beth ydym eisiau ei ddweud a sut mae dweud hynny heb o reidrwydd ddefnyddio geiriau; onid byw'r ffydd yw efengylu?

Ac wrth ofyn beth a wêl ein cymunedau wrth edrych arnom: ai rhyw hanner dwsin o bobl tua'r un adeg yn troi i mewn i adeiladau gwahanol a allai eistedd cannoedd a gwrando pregeth y gallai'r



un pregethwr ei thraddodi yn y capel agosaf lathenni i ffwrdd y Sul wedyn! Codwyd felly bwnc eciwmeniaeth yn benodol yng nghyswllt cymoedd de Cymru gan fod tystiolaeth nad oes bellach achos Cymraeg ar ôl mewn rhai ohonynt, heb sôn am y stadau tai newydd a godir ledled Cymru. Ai mater i'r Henaduriaeth yw hwn? Wrth gwrs! Ond tybia Morgannwg Llundain ei fod yn fater i'r enwadau gyda'i gilydd: onid oes perygl meddwl yn nhermau math o 'ymerodraeth eglwysig'? A phrun bynnag, beth am y cwestiwn o adnoddau digonol i'r dasg? Onid oes modd trafod syniadau a chydgynllunio a chydweithredu?

Y pwynt olaf a godwyd o'r 'hanes' ydyw sut y deallwn y sefyllfa o ddirywiad rydym ynddi nawr. Yr ateb a gafwyd oedd cyfeirio at lif afon – afon Conwy yn yr achos hwn. Mae llif yr afon yn rhedeg yn ddi-dor, haf a gaeaf, yn tynnu ei dyfroedd o Nant Conwy, ger Ysbyty Ifan, o lethrau Moel Siabod drwy afon Lledr a chylch Dolwyddelan ac o ardal Capel Curig drwy afon Llugwy. Daw'r tair yn un ym Metws-y-coed, a llifa tua'r môr gyda chymorth afonydd llai. Weithiau mae'n llifo'n fyrlymus ac yn gorlifo'i glannau; dro arall llifa'n araf a dwfn yn ei gwely, bron o'r golwg.

Sôn a wnawn ni am lif 'afon gras', sydd hithau'n parhau i lifo weithiau'n fyrlymus, fywiog ym mywyd personol pobl, gwlad a byd, ond ar adegau eraill llifa'n dawel. Mae'n llifo o galon Duw ei hun ac y mae pob cyfraniad a wnawn yn hybu ei llifeiriant o dosturi, cymod a chyfannu bywyd y greadigaeth yng Nghrist. Cyfrannu at ei llifeiriant sy'n ein cynnal a'n hysgogi i ddal ati, ac felly hybu llif adnewyddol yr Afon.



Llun: Peter S (Wikimedia Commons)

Pont-y-pair, Betws-y-coed

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Rhagdybiaethau

**Emyn 575 'Disgyn, Iesu, o'th gynteddoedd'**

**Darlleniad Mathew 11:25–30**

**Gweddi**

O Dad, Arglwydd nef a daear, addolwn di. Down atat drwy dy Fab, Iesu Grist, i'r hwn y traddodwyd pob peth gennyt ti. Rhyngodd dy fodd i'th ddatguddio dy hun i bobl fel ni drwy dy Fab, ac felly bodlona ninnau drwy ganiatáu i ni dy adnabod, yn dy Fab, drwy waith mewnol dy Ysbryd Glân. Mae dy ffyrdd y tu hwnt i ni, dy feddyliau'n uwch na ni. Down atat yn ôl dy wahoddiad. Down gan gydnabod a chyffesu ein hangen. Down atat i ddysgu gennyt. Down atat gan gredu dy fod yn addfwyn tuag at weiniaid fel ni; down atat gan ddeisyf arnat i godi'r beichiau yr ydym wedi mynnu eu cario. Ysgafnha ein baich drwy gymryd arnat dy hun bwysau trymaf yr iau. Dysg ni i gerdded ochr yn ochr â thi gan rodio i'r un cyfeiriad â thi. Arglwydd, clyw ni, er mwyn dy Fab. Amen.

**Emyn 689 'O Arglwydd, dywed im pa lun'**

**Darlleniad Genesis 24:1, 34–8, 42–9, 58–67**

**Tramgwydd**

Efallai y cawn ein synnu, o ddarllen yr adnodau sydd ger ein bron, at ddieithrwch yr hanes. Am ein bod mewn cymdeithas sydd am hyrwyddo 'cydraddoldeb', efallai fod 'patriarchaeth' y naratif yn ein tramgwyddo.

Efallai fod yr hanes am *drefnu priodas* yn ein tramgwyddo. Prin y medrwn ni, sy'n byw mewn cymdeithas seciwlar, orllewinol, ddychmygu bod rhieni'n cael caniatâd gan eu plant i drefnu priodas ar eu rhan. Mewn cymdeithas lle mae 'rhamant' a storïau caru yn cael eu darlunio ar draws y cyfryngau poblogaidd ac mewn diwylliant lle caiff pobl eu hannog i chwilio am yr 'un' person arbennig i gyflawni eu rhaid, ni allwn ddychmygu rhywun arall yn trefnu priodas oes ar ein rhan.

Y gwir yw fod priodasau sydd wedi eu trefnu yn arferiad ymhlith tua 80% o briodasau Asiaidd, ac mai priodas wedi ei threfnu fyddai'r arferiad yma yng Nghymru tan droad yr 1800au. Mae *Merch Gwern Hywel* (Saunders Lewis, 1964) yn adrodd hanes dau Fethodist selog a ddewisodd ddianc o'u cartref ganol nos er mwyn priodi; cwpwl oeddynt a ganiataodd i ramant eu cariad dorri ar gonfensiwn eu dydd.

I bobl sydd wedi magu mewn diwylliant 'gwyddonol' neu sydd wedi eu ffurfio'n ddiwylliannol gan ragdybiaethau'r Oleuedigaeth am orseddiad 'rheswm' ar ein bywyd bob dydd, gall y pwyslais amlwg sydd yn yr adnodau fod yr Arglwydd Dduw rywsut ar waith drwy'r cyfan fod yn *dramgwydd diwylliannol*.

Ni allwn, fodd bynnag, osgoi'r ffaith mai'r cymeriad gweithredol drwy'r hanes yw'r Arglwydd ei hun. Mae'n fwy na stori am ddarparu gwraig. Mae'n hanes am ffyddlondeb Duw i'r byd, drwy Abraham. Drwyddo diogelwyd y llinach y deuai Meseia, Arglwydd a gwaredwr y byd, ohoni ymhen y rhawd (Mathew 1:1–2, 16; Luc 3:23–38).

**Doethineb ymarferol**

I eglwysi ac i unigolion fel ei gilydd, gwyddom nad mater rhwydd bob amser yw canfod ewyllys yr Arglwydd. Ar un llaw gallwn syrthio i'r demtasiwn o dybio bod gan *bob mympwy* sydd ynom ryw awdurdod neu gadarnhad dwyfol. Temtasiwn o'r ochr arall yw credu nad yw'r Arglwydd yn ein harwain *o gwbl*. Os mai naïfrwydd yw nodwedd y duedd gyntaf, sinigrwydd anghrediniol yw nodwedd yr ail.

O graffu'n fanylach, canfyddwn ddysgeidiaeth fydd yn anogaeth hyd yn oed i ni, heddiw. Wedi'r cyfan, stori am ffyddlondeb yr Arglwydd yw hon!

Pa rinwedd felly fedrwn ni ei sugno o'r hanes hwn?

**Ffyddlon**

Wrth gyflwyno'r bennod hon ym mywyd Abraham cawn ein hatgoffa yn yr adnod gyntaf fod yr Arglwydd wedi bod yn *ffyddlon i'w alwad* cyntaf i Abraham. Addawodd y câi ei fendithio. Ac meddai awdur Genesis, 'Yr oedd Abraham yn hen ac oedrannus, ac yr oedd yr ARGLWYDD wedi ei fendithio ef ym mhob dim' (24:1,35). Duw sy'n cadw ei air ydyw.

Gyda'r hyder hwnnw gallwn chwilio'r Ysgrythurau am ddoethineb a chyfarwyddyd i'n gosod ar ben y daith. Arglwydd sy'n *ffyddlon i'w air* ydyw.

Yn ymarferol i ni, golyga hynny ein bod yn osgoi'r pethau sy'n cael eu gwahardd yn y Gair gan roi ein bryd ar arweiniad cadarnhaol yr Ysgrythurau a thraddodiad esboniadol yr Eglwys.

**Camu mewn ffydd**

Arweiniodd ffydd fewnol Abraham at y cam cyhoeddus i adael diogelwch Haran a chychwyn ar daith ddi-droi'n-ôl. 'Gofala,' meddai wrth ei was oedd ar fin cychwyn ar ei daith i chwilio am wraig i Isaac, 'nad ei â'm mab yn ôl yno' (adn. 6). Yn wir, cofiai Abraham iddo gael ei alw i adael y duwiau gwag ar ôl, a bod 'Duw y nefoedd' wedi ei arwain i wlad o addewidion (adn. 37–8). Roedd yn sicr y byddai'r Arglwydd yn ffyddlon i'w air. Am hynny, pa beth bynnag oedd ein profiadau ddoe, mae gennym addewid (yr un addewid ag a roed i'r gwas) y 'bydd ef yn anfon ei angel o'th flaen' (adn. 40).

**Y cyffredin arwyddocaol**

Peth peryglus i ni, pan chwiliwn am 'arwyddion' i'n cyfarwyddo, yw disgwyl y bydd yr arweiniad, am ei fod o Dduw, yn ddramatig neu'n anghyffredin. Gweddïodd gwas Abraham am gael adnabod arweiniad Duw yn y cyffredin anghyffredin. Nid oedd dim yn anghyffredin fod gwragedd ifanc yn codi dŵr i anifeiliaid. Ond, o gofio y gall camel yfed 200 litr (53 galwyn) o ddŵr mewn tri munud, byddai parodrwydd unrhyw wraig ifanc i dynnu dŵr o bydew dwfn i ddisychedu deg o gamelod, yn ychwanegol at dorri syched y gwas, yn dangos cymeriad un oedd yn barod iawn ei chymwynas.

**Pobl yr Arglwydd**

Un peth sy'n hynod am yr adnodau yw fod y gwas, Rebeca, a Laban fel ei gilydd yn disgwyl gweld arweiniad yr Arglwydd, ac yn ei adnabod (24:35,40,42,48–50,52). O adnabod arweiniad yr Arglwydd, rhodded yr Arglwydd i ninnau, fel Rebeca, yr awydd, y galon a'r ufudd-dod ffydd i ddweud, 'Af' (adn. 58). Yn ei gwmni, yn ei addewidion, er mwyn ei enw, 'Af'.

**Gweddi**

Arglwydd, caniatâ i ninnau chwilio am dy arweiniad yn dy air, drwy'r Gair a wnaed yn gnawd, drwy fedru adnabod ôl dy waith ym mhethau cyffredin bob dydd, a thrwy adnabod dy lais, dy gyfarwyddyd, dy arweiniad drwy gynulleidfa a chymdeithas dy bobl. Rho i ni ysbryd gweddi i'th geisio â'n holl galon. Amen.

**Emyn 185 'Mae dy air yn abl i'm harwain'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru